**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984**

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD I WNEUD GORCHYMYN PARHAOL**

**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYDGRYNHOI RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 14) 2024**

**DARPARIAETH A DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I ORCHMYNION TRAFFIG O FEWN GWAHANOL GYMUNEDAU YN SIR FYNWY**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffordd fel a ganlyn:

**EFFAITH Y GORCHYMYN:**

- I ymestyn y Terfyn Cyflymder 20mya ar yr A4077, Gilwern
- I ymestyn y Terfyn Cyflymder 20mya ar y B4598, Llancaio
- I ymestyn y terfynau cyflymder 20mya a 30mya ar y B4293 a'r C57-4 (Itton Common Road), Comin Llanddinol
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya ar y C26-2 (Pit-Wern-yr-Heolydd Road) a C26-7 (Lôn Huntsman), The Pitt, Llanarth
- I ymestyn y Terfynau Cyflymder 20mya a 30mya ar y B4347, Y Grysmwnt.
- Cyflwyno cyfyngiad cyflymder o 30mya ar y B4293.
- I ymestyn y Terfynau Cyflymder 20mya a 40mya ar yr R71, Llan-soe.
- I ymestyn y Terfynau Cyflymder 30mya ar y B4293 a'r R83 (HeolDyfawden), Y Dyfawden.
- Cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar C23-2, Maypole a Llanfocha.
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder o 40mya ar yr A466, Llanarfan i Dyndyrn.
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder 30mya ar yr A466, Buckholt.
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder 30mya ar y B4245, Magwyr.

O fewn yr ardaloedd a nodwyd ar y cynlluniau, sydd ar gael i'w gweld yn Neuadd y Sir, Brynbuga neu ar-lein drwy https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/

Gellir archwilio rhagor o fanylion am y Gorchymyn arfaethedig, sy'n cynnwys copi o'r gorchymyn drafft, cynlluniau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, drwy apwyntiad a drefnwyd o flaen llaw yn Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA (gellir trefnu apwyntiadau drwy e-bostio traffic@monmouthshire.gov.uk) neu drwy ffonio 01633 644644 neu ar-lein drwy https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/ neu drwy'r cod QR isod

Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cynnig hwn nid yn hwyrach na 5pm ar **Ddydd Mercher 8 Mai 2024** naill ai drwy:

- Anfon llythyr ysgrifenedig, yn nodi'r rhesymau dros wneud y sylwadau, at: Adran Traffig, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.

- Neu drwy sganio'r cod QR isod a dewis "Sut i wneud sylwadau ar GRhT arfaethedig", lle gellir cyrchu'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

**Dyddiad: 17 Ebrill 2024**

**Carl Touhig**
**Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth**
**Cyngor Sir Fynwy**